**Cofnodion Drafft**

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH AM 7.00 O'R GLOCH 01.09.25**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Ceri Griffiths, Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), James Maxwell (Is-Gadeirydd), Tegid John, Edwina Evans, Wendy Williams, Gordon Howie, Reg Chapman, Mark Lewis, Simon Turner, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 7 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Cafwyd cwestiynau a sylwadau gan rhai o'r cyhoedd
Cafwyd wybod bod deiseb ynglyn a HAL ag yn gofyn i'r Cyngor wneud hi yn amod bod pwll nofio a chyfleusterau hamdden ar gael i'r cyhoedd os bydd unrhyw ddatblygwyr gwesty yn cymeryd y safle drosodd. Nid oes dim i dwristiaeth ei wneud yn yr ardal ar dywydd gwlyb.
Siomedig bod y rhai oedd a diddordeb yn y safle wedi tynnu eu cais yn nol.
Pryder a fydd y cwmni gwesty yn gallu cael yr arian sydd ei angen arnynt.
Yn gofyn i'r Cyngor Cymuned rhoid sicrwydd bydd yna fudd cymunedol, ymgynghoriad cyhoeddus a bod rheoli risc proffesiynol ag yn ddygn yn cael ei wneud.
Eisiau eglurhad a ydi Celtic Connection yn edrych ar safle y pwll nofio ag ar safle yr hen westy Dewi Sant ag eglurwyd na ddim ond safle y pwll nofio oeddynt yn edrych arno.
Eisiau diolch i Mr a Mrs James Maxwell a'i cyfeillion am gynnal ffair werthu yn yr Hen Lyfrgell yn ystod yr haf er mwyn codi arian.
Eisiau diolch i rhai sydd yn cadw y darn tir ar rhiw Dewi Sant yn daclus.
Eisiau gwybod beth oedd gohebiaeth yn feddwl ar yr agenda ag eisiau gwybod pam bod "dim wedi eu derbyn" ar yr agenda ag eglurwyd mae penawd lle oedd e-byst, llythyrau ayyb yn cael eu rhestru ag hefyd eglurwyd bod ddim wedi derbyn erbyn oedd yr agenda yn mynd allan ond bod rhai wedi dod i law wedyn.
Eisiau gwybod beth yw y trefniadau gan y Cyngor ynglyn a chynnal gweithgareddau nadolig yn y dref eleni. Datganwyd bydd y mater hwn ar agenda cyfarfod mis nesa, ond flwyddyn nesa bydd angen dechrau trefnu hyn yn gynt.

**CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**.

Datganwyd gan y Cadeirydd bod mis Awst ddim wedi bod yn un distaw ag ei fod wedi cyfarfod a Mr. Joe Patton, cyfarfod rhai o'r cyhoedd, yn gweithio ar y ddogfen y ffordd ymlaen. Dywedodd bod y Clerc wedi cwblhau cwrs FILCA yn ystod mis Awst a wedi pasio. Cafwyd wybod bod y wefan newydd bron y barod a bod ef y Cyng. James Maxwell a'r Clerc wedi cyfarfod a Mr. Owen Brown a bydd newidiadau yn cael eu gwneud.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Gorffennaf 7ed 2025 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion.

**DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. James Maxwell ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ers y cyfarfod diwethaf ei bod wedi cael sawl cwyn ynglyn a chyflwr y toiledau cyhoeddus ag hefyd wedi cael gwybod bod fandaliaeth wedi cymeryd lle yn y toiledau ger gwesty y Queens mwy nag unwaith. 'Roedd wedi cael cwynion bod y biniau ysbwriel lawr wrth maes parcio Min y Don yn llawn ag 'roedd wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglyn a hyn a gofyn iddynt eu gwagio mwy amal. Wedi derbyn cwynion am or-yrru ar Ffordd Morfa a chyflwr y llochesi bws. Bydd gwaith yn dechrau i uwchraddio toiledau Min y Don y mis hwn, ond 'roedd wedi cael gwybod, yn anffodus oherwydd bod fandaliaeth yn dal i gael ei wneud i'r toiledau ger gwesty y Queens bod y cyllid sydd ar gael i'w wario ar doiledau Min y Don yn mynd yn llai. Hefyd mae y toiledau ger y gwesty y Queens ochor y dynion dal ar gau oherwydd fandaliaeth.

**MATERION YN CODI**

**Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £14,667.01 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £36,531.99 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2025/26.

**Ethol Cynghorydd**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn llythyr gan Ms Rhian Corps yn hysbysu y Cyngor ei bod yn ymddiswyddo fel aelod o'r Cyngor. Cytunwyd i anfon copi o'r llythyr at y Swyddog Etholiadol yn Gaernarfon. Datganwyd pryder gan yr Aelodau bod unwaith eto Gynghorydd ifanc yn ymddiswyddo o fod yn Aelod oherwydd yr harrasment mae wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd.

**Cyrsiau Hyfforddiant I Aelodau ar Clerc**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Un Llais Cymru yn amlinellau y cyrsiau hyfforddiant oedd ar gael rhwng mis Mehefin a Medi ag ei bod wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod. Datganodd y Cadeirydd y byddai yn anfon rhestr o'r cyrsiau mae ef yn mynd i'w mynychu i'r Clerc.

**Y Cwrt Tenis**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoid yr eitem uchod ar yr agenda oherwydd bod rhai o'r cyhoedd wedi tynnu sylw yr Aelodau bod gwaith sylweddol ei angen ar y safle. Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi edrych i mewn i archebu posts a rhwyd a cytunwyd ei fod yn cario ymlaen i archebu rhain, hefyd cytunodd i edrych i mewn i gael pris i ail bentio y llinellau. Cytunwyd bod angen gofyn i Mr. Meirion Griffiths dacluso o amgylch y cwrt tenis fel o'r blaen.

**Llochesi Bws**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost yn cwyno am gyflwr y lloches bws ger ystad Penyrhwylfa ag hefyd yr un ger y toiledau. Cytunwyd i osod paneli newydd a chael pris am rhain a cytunodd y Cyng. Tegid John ddelio gyda'r mater hwn.

**Y Las Ynys Fawr**

Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn i'r mater hwn gael bod ar yr agenda am bod rhai o aelodau Cyfeillion Ellis Wynne yn gofyn a ydi'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad ynglyn ar safle. Cytunwyd bod y Cadeirydd yn gofyn i arbennigwr mewn trosglwyddo asedau y ffordd ymlaen gyda hyn.

**Tir Penygraig**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoid yr uchod ar yr agenda oherwydd ei bod wedi cael gwybod gan gwmni Wateroo nad oeddynt yn gymwys i gario allan yr archwiliad oedd ei angen. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi derbyn pris o £2,700 oedd yn cynnwys TAW gan gwmni Groundsolve i gario yr archwiliad oedd ei angen allan ag hefyd yr oedd wedi derbyn ad-daliad gan gwmni Wateroo. Cytunwyd i dderbyn y pris hwn a gofyn i'r cwmni gario allan yr archwiliad.

**HAL – pleidlais ffurfiol ar drosglwyddo asedau**
Cafwyd wybod bod materion wedi newid ynglyn ar safle uchod a nid mewn sefyllfa i bleidleisio heno.
Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch HAL.
Nodais fod Moelwyn a Pobl wedi tynnu'n ôl o'u diddordeb a na bydd cysylltiad â HAL mewn ffordd dderbyniol.
Mae'r Celtic Collection wedi cadarnhau eu diddordeb cryf yn safle y Pwll ac maent yn datblygu cynigion.
Cynhelir cyfarfod ag arbenigwr ar drosglwyddo Asedau ar 5ed Medi.
Mae cyfarfodydd â Chyngor Gwynedd a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnal yn ddiweddarach y mis yma.

**Cyfarfod Un Llais Cymru – Penrhyndeudraeth 16.7.25**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Un Llais Cymru yn hysbysu y Cyngor o'r cyfarfod Cyffredinol Arbennig ar-lein sydd yn cael ei gynnal ar y 3ydd o'r mis hwn am 4.00 o gloch y prynhawn er mwyn trafod Cyfansoddiad a Fframwaith Llywodraethiant Un Llais Cymru. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi derbyn e-bost arall yn datgan - O ystyried y niferoedd isel a ddisgwylir i gymryd rhan yn y cyfarfod hwn, mae Cadeirydd Un Llais Cymru wedi cytuno i'w ganslo. Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar y 1af o Hydref 2025 bellach yn cynnwys Cynnig yn ceisio cymeradwyaeth y Cyfansoddiad newydd. Cafwyd wybod gan y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Un Llais Cymru ynglyn ar cyfarfod blynyddol sydd yn cael ei gynnal ar y 1af o Hydref ar faes y sioe yn Llanelwedd ag ei bod weid anfon hwn ymlaen I bob Aelod ag yn anffodus nid oedd neb yn gallu mynychu y cyfarfod hwn.
Adroddodd y Cyng. Martin Hughes ei fod wedi mynychu cyfarfod o bwyllgor Ardal Meirionnydd ar yr 16eg o Orffennaf yn Mhenrhyndeudraeth ond yn anffodus nid oedd siaradwr gwadd ar gael ag eu bod yn gobeithio bydd Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn dod I siarad yn y cyfarfod nesa. 'Roeddynt wedi cael cyfle I edrych o amgylch lleoliad newydd Cyngor Tref Penrhyndeudraeth ag hefyd 'roedd rhai Cynghorau yn datgan pryder ynglyn ar pwysau gwaith sydd ar Glercod erbyn hyn ag hefyd cafwyd materion yn codi gan Gynghorau eraill.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer ar y drychiad blaen 2 Y Waun, Harlech (NP5/61/653A)**
Cefnogi y cais hwn.

**Codi estyniad tô gwydr unllawr i'r cefn Erinfa, Stryd Fawr, Harlech (NP5/61/669B)** **DISGRIFIAD DIWYGIEDIG**
Cefnogi y cais hwn.

**ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**
Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £62,060.22 yn y cyfrif rhedegol a £114,800.53 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**

| | | |
|---|---|---|
| Dwr Cymru | - £254.77 | - dwr yn toiledau ger y castell |
| Dwr Cymru | - £43.02 | – tap dwr y rhandiroedd |
| Archwilio Cymru | - £3,755.00 | – archwiliad allanol 2022/23 a 2023/24 |
| Cyngor Gwynedd | - £408.00 | - archwiliad mewnol 2024/25 |
| Derwen Garden Centre | - £180.02 | – nwyddau i'r ardd gymunedol |
| Mr. Joe Patton | - £111.63 | - ad-daliad am nwyddau i'r ardd gymunedol |
| Mr Lee Warwick | - £384.17 | – glanhau toiledau cyhoeddus ger y neuadd goffa x 2 |
| Mr. Lee Warwick | - £100.00 | - torri gwair o amgylch y rhandiroedd x 2 |
| Mr. G. J. Williams | - £578.00 | - torri gwair cae chwarae Brenin Sior ar cae peldroed x 3 |
| Mrs Annwen Hughes | - £882.00 | - cyflog 6 mis + £528.17 costau 6 mis = £1,410.17 |

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Reg Chapman a wnaeth y Cyng. Tegid John gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**

Wateroo - £1,226.00 - ad-daliad cynnal archwiliad tir Penygraig
Cyllid a Thollad - £418.37 - ad-daliad TAW
Cyngor Gwynedd - £42,500.00 – hanner y precept

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Cyngor Gwynedd - £36.56 – treth cwrt tenis (talwyd 30.7.25)
Japanese Knotweed - £350.00 – cytundeb blynyddol (talwyd 30.7.25)
SLCC - £85.00 - tal aelodaeth (talwyd 1.8.25)
Catrin Soraya Williams – Dim - gwasanaeth cyfieithu

**GOHEBIAETH**

**Mr. Joe Patton**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor ei fod yn methu ceisio am grantiau i gario allan gwaith yn cae chwarae Brenin Sior oherwydd bod gan y cae chwarae ddim cyfrif banc ei hun a bod Cynghorau ddim yn gallu ceisio am grantiau gan Cynllun Gerddi Cenedlaethol. 'Roedd Mr. Patton yn gofyn a fyddai y Cyngor yn fodlon clustnodi arian er mwyn cario allan gwaith i greu safle lle mae plant anabledd yn gallu mwynhau chwarae ochor yn ochor a phlant corfforol galluog a gallu bod yr hawl gan unigolion gyda anabledd i gael mynediad i'r berllan a'r ardal gadair dweud stori sydd yn denu mwy o oedolion ein cymuned. Cytunodd y Cadeirydd edrych am bris i greu llwybr at y gadair stori ar berllan ag hefyd am bris i gael offer chwarae fyddai'n addas i'r anabl yn y parc chwarae. Cytunwyd i agor cyfrif banc yn enw cae chwarae Brenin Sior V.

**Mrs Myfanwy Jones**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn a fyddai yn bosib gosod sedd ger y bin melyn gyferbyn a'i thy oherwydd bod rhai angen eistedd ar ol cerdded i fyny ffordd Penllech. Hefyd yn gofyn a fyddai yn bosib gosod arwydd tu allan i siop Seasons and Reasond yn dynodi lle mae y castell oherwydd mae amryw o deithwyr yn cychwyn gyrru lawr ffordd Penllech cyn sylweddoli eu bod yn mynd y ffordd anghywir ag wedi yn bacio yn nol sydd yn achosi problemau i yrrwyr eraill. Cytunodd y Cadeirydd i fynd i ymweld a Mrs Jones er mwyn cael gwybod yn iawn lle oedd angen sedd ag hefyd cytunwyd anfon at Gyngor Gwynedd ynglyn a chael arwydd wedi ei osod.

**Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn ymweld ar ardal rhwng yr 8ed ar 12ed o'r mis hwn. Cytunwyd anfon rhestr iddynt o'r gwaith sydd angen ei wneud.

**ARWYDDWYD..............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD....................................................** 855